



Cymraeg

Iaith Geltaidd a ddaeth o'r Frythoneg sy'n frodorol i'r Cymry yw **Cymraeg** ([kəmˈraːiɡ] neu y *Gymraeg* [ə ɡəmˈraːiɡ] gyda'r fannod). Siaredir y Gymraeg fel iaith frodorol yng Nghymru gan tua 18% o'r boblogaeth, gan rai yn Lloegr, ac yn y Wladfa (y wladfa Gymreig yn Nhalaith Chubut, yr Ariannin).

Rhoddodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru.^[9] Mae'r Gymraeg a'r Saesneg ill dau yn ieithoedd swyddogol *de jure* y Senedd,^{[10][11]} ond nid yw eu statws yn gyfartal yn ymarferol achos bod cyfieithiadau o'r Gymraeg i'r Saesneg a nid y gwrthwyneb.

Yn ôl cyfrifiad 2021, roedd 538,300 o breswylwyr arferol yng Nghymru oedd yn dair oed neu'n hŷn yn gallu siarad Cymraeg (17.8% o'r boblogaeth), tra bod ychydig dros chwarter (25.1%) yn nodi bod ganddynt rywfaint o sgiliau iaith Gymraeg.^[12]

Cafwyd ffigurau uwch gan arolygon eraill: canfu arolwg yn 2022–2023 fod 34% o bobl 16 oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg (dywedodd 18 y cant ohonynt eu bod yn gallu siarad Cymraeg, a dywedodd 16 y cant fod ganddynt rywfaint o allu i siarad Cymraeg).^[13] Ym mis Mawrth 2025, dangosodd data arolwg arall fod oddeutu 828,600 o bobl (26.9%) tair oed neu hŷn yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg.^[14]

Mae bron i hanner yr holl siaradwyr Cymraeg yn ystyried eu hunain yn rhugl, tra bod 20% yn gallu siarad cryn dipyn.^[15] Mae 56% o siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith bob dydd, ac mae 19% yn siarad yr iaith yn wythnosol.^[15]

Cymraeg	
Ardal	Y Deyrnas Unedig (Cymru, <u>Lloegr</u>), yr Ariannin (<u>Talaith Chubut</u>)
Ethnigedd	Y Cymry
Siaradwyr	- Cymru: 538,300 (2021) (17.8% o boblogaeth Cymru yn ôl <u>cyfrifiad 2021</u> y Deyrnas Unedig, gan gynnwys siaradwyr <u>L1</u> ac <u>L2</u> speakers) <u>Lloegr</u>: 110,000 (2007, <u>amcangyfrifiad</u>)^[1] <u>Yr Ariannin (Chubut)</u>: 1,500–5,000^{[2][3][4]} <u>Canada</u>: <3,885 (<u>L1</u>)^[5] (2011) <u>Unol Daleithiau America</u>: 2,003^[6] <u>Awstralia</u>: 1,737^[7]
Teulu ieithyddol	<u>Indo-Ewropeaidd</u> <u>Celteg</u> <u>Celteg Ynysig</u> <u>Brythoneg</u> <u>Brythoneg Gorllewinol</u> Cymraeg
Ffuriau cynnar	<u>Brythoneg</u> <u>Hen Gymraeg</u> <u>Cymraeg Canol</u>
Tafodieithoedd	<u>Gwyndodeg</u> <u>Powysseg</u> <u>Dyfedeg</u> <u>Gwenhwysseg</u> <u>Cymraeg y Wladfa</u>
System ysgrifennu	<u>Lladin</u> (y wyddor Gymraeg) <u>Braille Cymraeg</u>
Statws swyddogol	

Flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 1951, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru wedi cynyddu^[angen ffynhonnell], er bod canran y siaradwyr hynny o fewn poblogaeth Cymru wedi gostwng bob degawd ar wahân i'r niferoedd a adroddwyd trwy Gyfrifiadau'r Deyrnas Unedig yn 1991 a 2001.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn, a dyblu'r defnydd dyddiol o'r iaith, erbyn 2050.^[16] Ers 1980, mae nifer y plant sy'n mynychu ysgolion Cymraeg wedi cynyddu, tra bod y nifer sy'n mynd i ysgolion dwyieithog a chyfrwng deuol Cymraeg wedi gostwng.^[17] Ystyrir y Gymraeg fel yr iaith Geltaidd sydd leiaf mewn perygl gan UNESCO.^[18]

Mae'r Gymraeg yn un o'r 55 o ieithoedd i gael eu cynnwys fel cyfarchiad ar Record Aur y Voyager er mwyn cynrychioli'r Ddaear yn rhaglen Voyager NASA a lansiwyd ym 1977.^[19] Mae pob cyfarchiad yn unigryw i'r iaith, a dywed y Gymraeg "*Iechyd da i chwi yn awr ac yn oesoedd*".^[20]

Hanes


Prif: Hanes y Gymraeg

Tarddodd y Gymraeg o'r Frythoneg yn y 6g, hynafiad cyffredin y Gymraeg, Llydaweg, Cernyweg, a'r iaith farw, Cymbreg.

Fel y mwyafrif o ieithoedd, mae cyfnodau canfyddadwy o fewn hanes y Gymraeg, ond mae'r ffiniau rhwng y rheiny yn aneglur fel arfer.

Tarddodd yr enw Saesneg ar yr iaith, sef *Welsh*, o'r enw a roddwyd i'w siaradwyr gan yr Eingl-Sacsoniaid, sy'n golygu "iaith estron" (gweler *Walha*). Yr enw brodorol ar yr iaith yw *Cymraeg*, a'r enw brodorol ar y wlad yw *Cymru* wrth gwrs.

laith swyddogol yn	Cymru (y Deyrnas Unedig)
laith leiafrifol gydnabyddedig yn	Yr Ariannin (Talaith Chubut)
Rheolir gan	Comisiynydd y Gymraeg (2012–heddiw) Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1993–2012)
Codau iaith	
ISO 639-1	cy (https://www.loc.gov/standards/iso639-2/php/langcodes_name.php?iso_639_1=)
ISO 639-2	wel (https://www.loc.gov/standards/iso639-2/php/langcodes_name.php?code_ID=487) (B) cym (https://www.loc.gov/standards/iso639-2/php/langcodes_name.php?code_ID=487) (T)
ISO 639-3	cym
Glottolog	wels1247 (https://glottolog.org/resource/languoid/id/wels1247)
ELP	Welsh (https://www.endangeredlanguages.com/lang/10429)
Linguasphere	50-ABA (https://web.archive.org/web/20200101010101/http://multitree.org/codes/50-ABA)



Y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru yn ôl cyfrifiad 2021

Niferoedd

Prif: Poblogaeth siaradwyr Cymraeg



Gellir disgrifio'r tueddiadau o 1891 hyd at 1971 yn weddol syml: gydag ychydig o eithriadau, gostyngodd y ganran oedd yn siarad Cymraeg ymhob grŵp oedran o'r naill gyfrifiad i'r llall. Cynyddodd y nifer absoliwt o siaradwyr o 1891 i gyrraedd bron i filiwn (977,366) yn 1911.

Dosraniad o siaradwyr Cymraeg


Ceir dadansoddiad cynhwysfawr o sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru yn adroddiad 5-mllynedd Comisiynydd y Gymraeg^[21], sy'n defnyddio arolwg ^[22] ynghyd â ffynonellau eraill. Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd 19.0% yn gallu siarad Cymraeg, gostyngiad o 1.8% ers Cyfrifiad 2001, ond yn uwch na'r 18.7% ym 1991. Dangosodd cyfrifiad 2011 y ganwyd tua 25% o breswylwyr Cymru y tu allan i Gymru. Nid oes ystadegau ar faint o bobl sy'n siarad Cymraeg yng ngweddill Prydain ond adroddodd Cyfrifiad 2011 fod 8,248 o bobl (3 oed a throsodd) yn Lloegr yn ystyried y Gymraeg yn brif iaith iddynt.^[23] Ym 1993, cyhoeddodd S4C ganlyniadau arolwg ar faint o bobl a allai siarad neu ddeall Cymraeg. Darganfu'r arolwg yma fod tua 133,000 o siaradwyr Cymraeg yn byw yn Lloegr, gyda thua 50,000 ohonynt yn byw yn Llundain Fawr.^[24] Amcangyfrifodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg fod 110,000 o bobl yn 2001 a oedd yn gallu siarad Cymraeg ar ddyddiad cynharach yn byw yn Lloegr.^[25]

Yn sgil mudo a thwf yn nylanwad y Saesneg ar fröydd Cymraeg, cafwyd lleihad yn y niferoedd sy'n siaradwyr uniaith Cymraeg^[26]. Bellach nid oes siaradwyr uniaith y Gymraeg i gael. Ar y cyfan, mae siaradwyr Cymraeg hefyd yn siarad y Saesneg (yn Nhalaith Chubut, yr Ariannin, Sbaeneg yw iaith y mwyafrif — *gweler Y Wladfa*). Serch hynny, mae llawer o siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn fwy cyffyrddus yn mynegi eu hunain drwy gyfrwng y Gymraeg na'r Saesneg. Gall yr iaith y mae siaradwyr yn ei dewis amrywio yn ôl yr angen, pwnc, cyd-destun cymdeithasol, ac o fewn mynegiant (a elwir yn ieithyddiaeth yn cyfnewid côd).

Caiff y Gymraeg ei siarad yn iaith gyntaf yng Ngogledd a Gorllewin Cymru yn bennaf, yng Ngwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Ynys Môn, Sir Gâr, gogledd Sir Benfro, Ceredigion, ardaloedd ym Morgannwg, a



Map o Gymru yn 1891, gan ddangos dosbarthiad y Gymraeg yn ôl ardal mewn pum categori (o dan 10% i dros 80%)



Cymraeg



gogledd-ddwyrain a de-ddwyrain eithafol Powys, ond canfyddir siaradwyr iaith gyntaf a siaradwyr rhugl ar draws Cymru gyfan.

Ymgyrchu dros y Gymraeg

Cefndir


Bu agweddau negyddol tuag at y Gymraeg yn y 19g a disgrifodd



Marciau ffyrdd dwyieithog ar bwys Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, Bro Morgannwg.

golygydd y 'Times' y Gymraeg fel "the curse of Wales" yn 1866. Er gwaethaf hyn, siaradodd y prif weinidog Gladstone yn Eisteddfod yr Wyddgrug gan sôn am yr heniaith, ac yn 1877, dan ddylanwad Matthew Arnold, sefydlwyd Llywydd Astudiaethau Celtaidd. Yn 1888 galwodd Gladstone am adnabyddiaeth yr Eglwys o'r Gymraeg a fyddai'n awgrymu adnabyddiaeth y Llywodraeth yn ei dro.^[27]

Iaith	[dangos]
Hanes	[dangos]
Diwylliant	[dangos]
Tafodieithoedd	[dangos]
Mudiadau a sefydliadau	[dangos]
 WiciBrosiect Cymru	



Graff o ganran y boblogaeth a oedd yn gallu siarad Cymraeg, 1911–2001.

Ymgyrchu

Trefnodd Cymdeithas y Cymmrodorion sesiynau yng Nghapel Penlan yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Cymru Pwllheli 1925 i drafod "Cadwraeth yr Iaith". Roedd y Parchedig Ddr. G Hartwell Jones, Elfed a Phedrog yn pwysleisio creu ewylllys da tuag at y Gymraeg tra roedd Thomas Gwynn Jones a J.H. Jones, golygydd *Y Brython*, yn mynnu nad oedd gobaith ei chynnal heb wleidyddiaeth ymosodol o'i phlaid.

Roedd Syr John Morris-Jones yn cyfiawnhau darlithio i'w fyfyrwyr yn Saesneg am ei fod am weld y Cymry yn genedl ddwyieithog ac nad oedd ar y Gymraeg angen termau ar gyfer trafod y byd cyfoes. Mynnai Prosser Rhys, Edward Morgan Humphreys a'r Parch D. Tecwyn Evans y dylid hyrwyddo'r Gymraeg mewn storïau poblogaidd i'r ifanc, mewn drama a ffilm a rhaglenni radio.^{[28][29]}

Statws swyddogol

Er mai iaith leiafrifol ydyw'r Gymraeg, cynyddodd y gefnogaeth iddi yn ystod ail hanner y 20g, ynghyd â chynnydd mewn sefydliadau megis y blaid wleidyddol genedlaethol, Plaid Cymru ers 1925, a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg ers 1962.

Yn ôl Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Deddf Llywodraeth Cymru 1998, roedd yn rhaid i'r sector gyhoeddus drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, cyn belled ag oedd hynny'n rhesymol ac ymarferol. Roedd yn rhaid i gyrff cyhoeddus ysgrifennu Cynllun yr Iaith Gymraeg, oedd yn rhaid ei gymeradwyo ymlaen llaw, oedd yn nodi ymrwymiad i drin y Gymraeg yn gyfartal. Anfonwyd y drafft hwn am ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o

dri mis, lle gellid cynnwys sylwadau awgrymedig yn y fersiwn derfynol. Wedyn, roedd angen ar Fwrdd yr Iaith ei gymeradwyo cyn iddo gael ei dderbyn yn derfynol gan y cwmni dan sylw. Ar ôl hynny, roedd yn rhaid i'r corff cyhoeddus weithredu ei rwymedigaethau yn unol â'i Gynllun.

Ar 7 Rhagfyr 2010, cymeradwyodd y Cynulliad yn unfrydol set o fesurau i'w defnyddio er mwyn datblygu defnydd y Gymraeg yng Nghymru.^[30] Ar 9 Chwefror 2011, derbyniodd y mesur hwn Gydsyniad Brenhinol a chafodd ei gymeradwyo, a chan hynny yn gwneud y Gymraeg yn iaith a gydnabyddir yn swyddogol yng Nghymru.^[31]

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn:

- cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg;
- creu system newydd i roi dyletswydd ar gyrff i ddarparu gwasanaethau trwy'r Gymraeg;
- creu comisiynydd yr Iaith Gymraeg newydd a chanddo bwerau cryf i orfodi cydymffurfiaeth, er mwyn diogelu hawliau siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau trwy'r Gymraeg;
- sefydlu Tribiwnlys Iaith Gymraeg newydd;
- rhoi'r hawl i unigolion a chyrff i apelio yn erbyn penderfyniadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau trwy'r Gymraeg;
- creu cyngor Partneriaeth Iaith Gymraeg newydd i gynghori'r Llywodraeth ar effeithiau ei pholisïau ar y Gymraeg;
- caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg ymchwilio'n swyddogol i achosion lle gwelir ymgais i amharu ar ryddid unigolion i siarad Cymraeg gyda'i gilydd.^[32]

O ganlyniad i gymeradwyo'r mesur hwn, y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus a rhai cwmnïau preifat ddarparu gwasanaethau Cymraeg, ond ni wyddys eto'r pa gwmnïau a fydd yn gorfod cydymffurfio. Meddai'r Gweinidog Treftadaeth, Alun Ffred Jones, "*Mae'r Gymraeg yn destun balchder i bobl Cymru, p'un a ydynt yn ei siarad neu beidio ac rwy' wrth fy modd felly bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi cymeradwyo'r Mesur. Rwy'n falch fy mod wedi cael llywio'r ddeddfwriaeth trwy'r Cynulliad sy'n cadarnhau statws swyddogol yr iaith; sy'n creu eiriolydd cryf dros siaradwyr y Gymraeg ac a fydd yn cynyddu'n sylweddol nifer y gwasanaethau fydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Rwy'n credu dylai pawb sydd eisiau derbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, gael y cyfle i wneud hynny, a dyna beth mae'r Llywodraeth yma wedi bod yn gweithio tuag ato. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gam pwysig a hanesyddol ymlaen i'r iaith, eu siaradwyr ac i'r genedl*".^[32]

Ni dderbyniwyd y mesur gan bawb; ysgogodd Bethan Williams, cadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, ymateb cymysg, gan ddweud, "*Through this measure we have won official status for the language and that has been warmly welcomed. But there was a core principle missing in the law passed by the Assembly before Christmas. It doesn't give language rights to the people of Wales in every aspect of their lives. Despite that, an amendment to that effect was supported by 18 Assembly Members from three different parties, and that was a significant step forward*".^[33]

Ar 5 Hydref 2011, penodwyd Meri Huws, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn Gomisiynydd newydd dros y Gymraeg.^[34] Mewn datganiad a ryddhawyd ganddi, dywedodd ei bod "wrth ei bodd" i gael ei phenodi i'r "rôl bwysig bwysig," hon, gan ychwanegu, "*Bydda i'n adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi'i wneud gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac eraill er mwyn cryfhau'r Gymraeg a sicrhau ei bod yn parhau i ffynnu*." Dywedodd Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, y byddai Meri yn "eiriolwr ardderchog dros y Gymraeg," ond roedd pryderon gan ambell i berson; dywedodd Bethan Jenkins o Blaid Cymru, "*I have concerns about the transition from Meri Huws's role from the Welsh Language Board to the language commissioner, and I will be asking the Welsh*

government how this will be successfully managed. We must be sure that there is no conflict of interest, and that the Welsh Language Commissioner can demonstrate how she will offer the required fresh approach to this new role."^[35] Cychwynnodd Meri ei gwaith fel Comisiynydd Iaith ar 1 Ebrill 2012.

Defnyddia cynghorau lleol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru y Gymraeg yn iaith lled-swyddogol, gan ddosbarthu deunydd llenyddol a hyrwyddol yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg (e.e., llythyron at rieni o'r ysgol, gwybodaeth llyfrgelloedd, gwybodaeth cynghorau ac ati) ac mae'r mwyafrif o arwyddion ffyrdd yng Nghymru yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan gynnwys enwau lleoedd. Serch hynny, defnyddir yr enw Saesneg yn unig am leoedd mewn rhai mannau yn Lloegr er bod enwau Cymraeg arnynt ers llawer dydd (e.e. *London*: Llundain; *The [English] Midlands*: Canolbarth Lloegr).

Ers 2000, mae hi'n orfodol i addysgu'r Gymraeg fel ail iaith mewn ysgolion hyd at 16 oed, ac mae hyn wedi cyfrannu at sefydlogi ac i ryw raddau at wrthdroi dirywiad yr iaith mewn rhai mannau.

Er bod arwyddion ffyrdd dwyieithog yng Nghymru, mae'r geiriad ar arian o hyd yn uniaith Saesneg. Yr unig eithriad i hyn fu'r arysgrif ar bunnoedd Cymru yn 1985, 1990, a 1995, a ddywedai, *Pleidiol wyf i'm gwlad* o anthem genedlaethol Cymru, *Hen Wlad fy Nhadau*. Nid yw'r Gymraeg ar y ceiniogau Prydeinig newydd (2008 ymlaen), er iddynt gael eu dylunio gan Ogleddwr a'u bathu yn y Bathdy Brenhinol yn Llantrisant, yn ne Cymru. Er bod llawer o siopau yn arddangos arwyddion dwyieithog, prin ydy'r defnydd o'r Gymraeg ar ddeunydd pacio a chyfarwyddiadau.

Geirfa

Prif: Benthyg geiriau i'r Gymraeg

Mae geirfa'r Gymraeg yn tarddu o eiriau'r Frythoneg yn bennaf (megis wy a *carreg*), gydag ambell i air benthyg o'r Lladin (megis *ffenestr* < Lladin *fenestra* a *gwin* < Lladin *vinum*), a'r Saesneg (megis *silff* a *gât*). Mae'r Gymraeg, fel ieithoedd eraill y byd, yn benthyca geirfa oddi ar ieithoedd eraill. Benthyciwyd i'r Gymraeg o'r Lladin, yr Wyddeleg, y Ffrangeg, a'r Saesneg yn bennaf. Ceir rhai geiriau Cymraeg sy'n tarddu o'r Hen Norseg, y Roeg, a'r Hebraeg. Ar hyn o bryd, o'r Saesneg y benthycir gan fwyaf, ac o ieithoedd eraill y byd drwy'r Saesneg.

Orgraff

Prif: Orgraff y Gymraeg a Yr wyddor Gymraeg

Ysgrifennir y Gymraeg gyda gwyddor Ladin, sydd defnyddio 28 llythyren yn draddodiadol, lle bo wyth ohonynt yn ddeugraffau (dwy lythyren a drinnir yn un) ar gyfer coladiad:

a, b, c, ch, d, dd, e, f, ff, g, ng, h, i, l, ll, m, n, o, p, ph, r, rh, s, t, th, u, w, y

Yn wahanol i'r Saesneg, ystyrir "w" ac "y" yn llafariad yn y Gymraeg, ynghyd ag "a", "e", "i", "o" ac "u".

Defnyddir y llythyren "j" mewn geiriau benthyg o'r Saesneg, megis *jam*, *jôc*, a *garej*. Prin iawn yw'r defnydd o "k", "q", "v", "x", a "z", ond fe'u defnyddir o fewn rhai cyd-destunau technegol, megis *kilogram*, *volt* a *zero*, ond defnyddir amnewidiadau Cymraeg fel arfer: *cilogram*, *folt* a *sero*.^[36] Roedd y llythyren "k" yn gyffredin hyd y 16g, ond fe'i collwyd adeg cyhoeddi'r Testament Newydd yn y Gymraeg, fel yr eglurodd William Salesbury: "*C for K, because the printers have not so many as the Welsh requireth*". Nid oedd y newid yma yn boblogaidd ar y pryd.^[37]

Yr acen grom yw'r marc diacritig mwyaf cyffredin, sy'n gwahaniaethu llafariad hir a byr, fel arfer gyda homograffau yn bennaf, lle bo'r llafariad yn fyr mewn un gair ac yn hir yn y llall: e.e., *man* a *mân*.

Gramadeg y Gymraeg

Prif: Gramadeg y Gymraeg

Ffonoleg

Prif: Ffonoleg y Gymraeg

Nodweddir ffonoleg y Gymraeg gan nifer o synau nad ydynt yn bodoli yn y Saesneg ac sy'n deipolegol brin mewn ieithoedd Ewropeaidd. Mae'r acen bwys fel arfer yn disgyn ar y goben (y sillaf olaf ond un) mewn geiriau aml-sillafog.

Morffoleg

Prif: Morffoleg Cymraeg llafar a Morffoleg Cymraeg llenyddol

Cystrawen

Prif: Cystrawen y Gymraeg

Cymraeg ysgrifenedig

Prif: Cymraeg ysgrifenedig

Aethpwyd ati i ysgrifennu Cymraeg yn gynnar o'i chymharu ag ieithoedd eraill canolbarth a gogledd Ewrop (heblaw am Ladin a Groeg), efallai cyn gynhared ag OC 600, er nad oes ysgrifau wedi goroesi o'r adeg honno. Ar garreg yn Eglwys Sant Cadfan, Tywyn y ceir y geiriau Cymraeg cynharaf i oroesi, carreg a naddwyd tua'r flwyddyn OC 700.



Arwyddion dwyieithog yng Nghaerfyrddin

Perthynas Cymraeg ysgrifenedig a Chymraeg llafar

Gan fod datblygiad Cymraeg Fodern ysgrifenedig yn lled araf mae gagendor eang wedi agor rhyngddi a Chymraeg llafar. Yn wir, mae rhai o'r gwahaniaethau rhwng yr ysgrifenedig a'r llafar yn hen iawn. Ysgrifennir ffurf trydydd person lluosog y ferf yn **–ant** ond fe'i hyngenir yn **–an**. Dengys barddoniaeth y 12g, lle odlid geiriau'n diweddu ag **–ant** gyda rhai yn diweddu ag **–an**, fod y gwahaniaeth hwn eisoes yn bodoli bryd hynny. Dim ond yn ddiweddar y cydnabuwyd llawer o newidiadau yr iaith lafar yn y Gymraeg ysgrifenedig newydd a elwir yn Gymraeg Cyfoes.

Tafodieithoedd ac iaith lafar

Prif: Cymraeg llafar


Cymraeg llafar yw'r iaith fel y'i siaredir yn hytrach na'i hysgrifennu. Mae hi'n wahanol i'r iaith ysgrifenedig o ran geirfa, gramadeg a morffoleg. Ceir ynddi sawl cywair ieithyddol tra gwahanol, a sawl tafodiaith.

Hanes siaradwyr, tiriogaeth a statws y Gymraeg


Prif: Hanes siaradwyr, tiriogaeth a statws y Gymraeg

Credir bod tua 90% o boblogaeth Cymru yn Gymry Cymraeg ddechrau'r 19g a rhyw 70% yn Gymry uniaith. Erbyn 2001, mae rhyw 20.5% o bobl yn siarad Cymraeg (un mewn pump),^[38] sef rhyw 580,000 o bobl yn ôl y cyfrifiad.


Ieithoedd Cymru 1750 - 1900




1750



1800



1850



1900

Allwedd: • Cymraeg ■ • Dwyieithog ■ • Saesneg □

Y Wladfa

Prif: Cymraeg y Wladfa

Mae cymuned fechan o ddisgynyddion i Gymry Cymraeg wedi goroesi yn y Wladfa, ym Mhatagonia, yr Ariannin. Siaredir Cymraeg ym Mhatagonia er 1865 pan aeth grŵp o ymsefydlwyr o Gymru yno i fyw, i chwilio am fywyd gwell ac i gael byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn rhydd o orthrwm.

Diwylliant Cymraeg

Prif: Diwylliant Cymraeg



Arwydd dwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg yn Nhrelew, yr Ariannin.

Adeg twf Anghydfurfiaeth yn ystod y 19g, daeth y capeli yng Nghymru yn ganolbwynt bywyd Cymraeg. Ymysg y llu o weithgareddau cymdeithasol a drefnwyd gan y capeli ceid eisteddfodau, corau a theithiau gwib. Ond erbyn diwedd y 19eg ganrif yn yr ardaloedd diwydiannol roedd gan y boblogaeth arian yn eu pocedi a'r gallu i dalu am adloniant y tu allan i furiau'r capel. Roedd difyrwch ar gael yn y theatr, yn y trefi gwyliau, ac yn ddiweddarach mewn ffilm, ar y radio ac ar y teledu. Tanseiliwyd lle'r capeli Cymraeg, a fu'n ganolbwynt cymdeithas, gan yr adloniant newydd hudolus. Erbyn dechrau'r 20g, cyrhaeddai'r diwylliant Eingl-Americanaidd y byd a'r betws drwy ffilm, radio a theledu gan gystadlu ag adloniant a diwylliant traddodiadol y cartref a'r gymuned leol.

Sefydlwyd rhai mudiadau cenedlaethol Cymraeg eu cyfrwng yn ystod yr 20g, sydd i raddau yn llenwi'r bwlch a adawyd wrth i weithgaredd cymdeithasol y capeli ddihoeni. Mudiad yr Urdd a ffurfiwyd ym 1922 yw'r pwysicaf o'r rhain. Mae Merched y Wawr a'r Ffermwyr Ifainc hefyd yn fudiadau o bwys yn cynnal gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir nifer o fudiadau cenedlaethol eraill Cymraeg eu hiaith megis Undeb Cenedlaethol y Cymdeithasau Cymraeg, Cymdeithas Edward Llwyd, a'r Gymdeithas Wyddonol. Sefydlwyd Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion ym 1751 gan Forisiaid Môn yn gymdeithas lenyddol i amddiffyn y Gymraeg.

Eisteddfodau

Mae gan eisteddfodau le canolog yn niwylliant Cymru a'r Gymraeg. Wedi nychdod yr hen gyfundrefn eisteddfodol yn y canrifoedd wedi'r Deddfau Uno adnewyddwyd yr eisteddfod gyda chyfarfodydd taleithiol yn ystod y 19eg ganrif. Sefydlwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn y 1860au ond defnyddiwyd mwy a mwy o Saesneg yn yr Eisteddfod Genedlaethol gyda threigl y blynyddoedd. Erbyn 1931 Saesneg oedd prif iaith y llwyfan, y beirniadaethau a seremonïau gorsedd y Beirdd, sefyllfa annerbyniol i lawer. Gwnaethpwyd y Gymraeg yn iaith swyddogol yr Eisteddfod ym 1937 ond parhau wnaeth y defnydd o'r Saesneg ar lwyfan yr eisteddfod tan 1952 pan gyflwynwyd y Rheol Gymraeg. O hyn ymlaen, y Gymraeg yn unig a glywid ar lwyfan yr Eisteddfod (heblaw am rai anerchiadau gan westeion gwadd). Mae'r Rheol Gymraeg hithau'n bwnc llosg sydd wedi peri i rai awdurdodau lleol atal eu cyfraniad ariannol tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol. Beirnedir yr Eisteddfod Genedlaethol gan rai am safon anwastad y llenyddiaeth a wobrwyr. Ar y llaw arall, clodforir yr Eisteddfod am ei bod yn ŵyl ddiwylliannol i'r werin, am roi llwyfan cenedlaethol i artistiaid Cymru, am feithrin barddoni, ac am hybu dysgu Cymraeg.

Trefnir eisteddfodau gan gymdeithasau megis yr Urdd, Mudiad y Ffermwyr Ifainc, ac Undeb Cenedlaethol y Glowyr. Cynhelir rhai eisteddfodau taleithiol o hyd, megis eisteddfod Pontrhydfendigaid ac ambell eisteddfod drefol neu bentrefol, ond nid oes cymaint o fri ar y rhain ag a fu ac nid yw'r capeli'n trefnu eisteddfodau fel ag y buont ychwaith.

Diwylliant Cymru



laith	[dangos]
Traddodiad	[dangos]
Llenyddiaeth	[dangos]
Cerddoriaeth	[dangos]
Bwyd	[dangos]
Dathliadau a gwyliau	[dangos]
Cerddoriaeth a dawns	[dangos]
Drama	[dangos]
Chwaraeon	[dangos]
Symbolau	[dangos]
Crefydd	[dangos]
Hanes	[dangos]




WiciBrosiect Cymru

Llenyddiaeth Gymraeg

Prif: Llenyddiaeth Gymraeg

Llyfrau argraffedig Cymraeg



Dyfyniadau Ynglŷn â'r iaith Gymraeg

Argraffwyd llyfrau Cymraeg yn gynnar o gymharu â llawer o ieithoedd eraill Ewrop nad oeddent yn ieithoedd gwladwriaeth. Nifer fechan o lyfrau a gyhoeddwyd, cyfanswm o 116 rhwng 1546 a 1670. Crefydd oedd pwnc mwyafrif y llyfrau hyn. Yna cynyddodd nifer y llyfrau a gyhoeddwyd i gyfartaledd o 4 y flwyddyn rhwng 1670 a 1700 a 14 y flwyddyn rhwng 1700 a 1730, yn rhannol drwy nawdd y Welsh Trust a'r SPCK. Erbyn y 18g, roedd pris llyfr wedi disgyn yn sylweddol, ac o fewn cyrraedd y werin. Ymhlith y llyfrau a gyhoeddwyd yr oedd rhai o

glasuron y Dadeni Dysg a llenyddiaeth grefyddol Cymru: *Cannwyll y Cymry* gan y Ficer Prichard (1681) a *Gweledigaethu y Bardd Cwsc* gan Ellis Wynne (1703). Esgorodd cynnydd aruthrol llythrennedd yn ystod y 18g yn esgor ar alw am lyfrau o bob math, yng Nghymru fel ag yn Lloegr. Sefydlwyd nifer o argraffdai yng Nghymru i gyflenwi'r farchnad newydd â llyfrau. Cyhoeddwyd dros 2,500 o lyfrau Cymraeg yn ystod y 18g.


Heddiw, cyhoeddir 500-600 llyfr Cymraeg yn flynyddol, llawer ohonynt yn lyfrau i blant. Ymysg y cyhoeddwy'r pennaf mae Gwasg Gomer, Gwasg Prifysgol Cymru a'r Lolfa (rhestr gyflawn o gyhoeddwy'r llyfrau Cymraeg (http://www.gwales.com/links/?link_id=1&tsid=3)). Ariennir y gwaith o gyhoeddi llawer o lyfrau Cymraeg a Chymreig gan y Llywodraeth drwy Gyngor Llyfrau Cymru a sefydlwyd fel y Cyngor Llyfrau Cymraeg ym 1961. Mae Cyngor Llyfrau Cymru hefyd yn dosbarthu llyfrau Cymreig yn Saesneg.

Ceir casgliad helaeth o lawysgrifau, cyfnodolion a llyfrau Cymraeg yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Un o swyddogaethau Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw rhoi ar gadw copi o bob llyfr gaiff ei gyhoeddi ym Mhrydain. Yn ogystal â deunydd ar bapur cesglir yno ddeunydd ar gyfryngau sain a llun.

Llenyddiaeth am y Gymraeg

Mae'r Gymraeg wedi bod yn elfen flaenllaw yn yr ymwybyddiaeth o'r hunaniaeth Gymreig. Mae'r ymwybyddiaeth hon yn treiddio i waith llenorion Cymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Efallai mai'r man lle mae'r Gymraeg yn fwyaf amlwg yw'r anthem genedlaethol "Hen Wlad fy Nhadau": "a bydded i'r heniaith barhau". Mae'r Gymraeg, Cymreictod a cholli iaith yn themâu i nifer o weithiau llenyddol. Ymhlith y mwyaf amlwg o'r rhain yw nofel Islwyn Ffowc Elis Wythnos yng Nghymru Fydd, a cherddi Gerallt Lloyd Owen gan gynnwys "Etifeddiaeth", cerdd Gwyneth Lewis *Y Llofrudd Iaith*, cerddi Jac Glan-y-gors "Dic Siôn Dafydd", a cherddi Waldo Williams "Yr Heniaith" a "Cymru a Chymraeg". Dylid hefyd grybwyll cerdd arall gan Waldo Williams, "Cofio", sy'n alarnad i ieithoedd a phobloedd golledig y ddaear gyfan.

Llenyddiaeth Gymraeg



Rhestr llenorion [dangos]

Cyfnodau [dangos]

Rhestr llenorion [dangos]

Rhyddiaith [dangos]

Erthyglau eraill [dangos]



WiciBrosiect Cymru

Yn ogystal â cherddi sy'n moli'r Gymraeg neu weithiau yn galaru amdani neu'n ymgyrchu trosti, ceir hefyd weithiau sy'n mynegi'r profiad o fod yn Gymro Cymraeg. Mae'r profiad hwn yn annatod glwm wrth ddylanwad cenedligrwydd, cenedlaetholdeb, galar, cymhleth israddoldeb, rhamant y gorffennol, gwawd y Sais, ymgecru ymysg y Cymry, perthyn i draddodiad hir a gwerthfawr, a pherthyn i fro.^[39]

Ceir ymateb cymhleth i'r Gymraeg a'r ymwybyddiaeth o Gymreictod hefyd yng ngweithiau rhai llenorion Cymreig yn ysgrifennu yn Saesneg yn enwedig o'r 1930au ymlaen. Yn eu plith mae gweithiau Caradoc Evans, Cymro Cymraeg, megis *My People*, gweithiau R. S. Thomas a ddysgodd Gymraeg (megis "*Reservoirs*" yn ei *Collected Poems 1945-1990*), a Gwyn Thomas, yn Gymro di-Gymraeg o'r union genhedlaeth na fagwyd yn Gymry Cymraeg. Rhoddwyd mynegiant am y tro cyntaf i ymdeimlad o Gymreictod di-Gymraeg gan rai o'r llenorion hyn. Ffenomenon yn perthyn i Gymru'r 20g yw'r diwylliant Cymreig di-Gymraeg a dyfodd yn sgil y mewnlifiad mawr i'r cymoedd diwydiannol yn ystod y ddau ddegawd cyntaf o'r ganrif. Diddorol sylwi bod T. Llew Jones, a hanai o'r un ardal â Caradoc Evans, wedi galw ei hunangofiant o fwriad yn *Fy Mhobol i*; ynddo mae'n trafod ymateb Caradoc Evans i'r Gymraeg.

Er mai digon gelyniaethus oedd rhai o'r llenorion Cymraeg a Saesneg tuag at ei gilydd ar ddechrau'r 20g, ond erbyn diwedd y ganrif roeddynt yn tueddi i gymodi yn lle ymgecru. Llwyddwyd i gyhoeddi casgliad o farddoniaeth yn *The Oxford Book of Welsh Verse in English* ym 1977 a gynhwysai gerddi Saesneg a cherddi a gyfieithwyd o'r Gymraeg mewn un gyfrol. Ym 1986 cyhoeddwyd *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* ar y cyd â *The Oxford Companion to the Literature of Wales*. Erbyn hyn, ceir nifer o gyfrolau a gyhoeddir yn Saesneg a Chymraeg ar y cyd, megis llyfrau yn adrodd hanes bro neu'n dathlu digwyddiad hanesyddol.

Celfyddydau eraill

Prif: Theatr Gymraeg a Ffilm Gymraeg

Cymraeg a'r cyfryngau

Prif: Cyfryngau Cymraeg

Yn gyffredinol mae datblygiadau technolegol yn y cyfryngau cyfathrebu wedi hyrwyddo'r Saesneg yng Nghymru, fel ag yn y byd yn gyffredinol. Galluogai'r dechnoleg newydd, yn bapur newydd ac yna'n radio, teledu a'r rhyngwrwyd, i'r Saesneg dreiddio i aelwydydd Cymraeg, lle na chlywsid erioed Saesneg gynt. Dylanwadai'r radio a'r teledu, a gyrhaeddai aelwydydd Prydain gyfan, ar agweddau ac arferion gwrandawyr a gwylwyr.^[40]

Ym mhob un o'r cyfryngau newydd fe geisiai rhai sicrhau bod y Gymraeg yn ennill ei phlwyf yn wyneb y gystadleuaeth Saesneg, weithiau'n llwyddiannus ac weithiau'n aflwyddiannus.

Papurau newydd

Prif: Papurau newydd Cymraeg

Yn ystod y 19g tyfodd diwydiant papur newydd ffyniannus yng Nghymru. Erbyn 20au a 30au'r 20g, fodd bynnag, roedd y farchnad papurau newydd drwy Brydain yn mynd yn fwy-fwy canolog dan bwysau'r farchnad a bu cwmp yn nifer y papurau newydd a gyhoeddid. Peidiodd *Y Darian* ym 1934, traflynwyd *Y Genedl Gymreig* gan gwmni'r Herald ym 1932, a pheidiodd *Y Faner* ym 1992.

Heddiw, mae nifer o bapurau a chylchgronau Cymraeg wythnosol neu fisol ar gael megis *Golwg*, *Y Cymro* a *Barn* ond does dim un papur dyddiol. Cafwyd ymdrech i lansio papur wythnosol o'r enw 'Y Byd', ond yn 2007 rhoddwyd y gorau i'r syniad oherwydd diffyg nawdd cyhoeddus. Noddir nifer o gylchgronau arbenigol gan Gyngor Llyfrau Cymru. Erbyn heddiw, mae'r galw am newyddion lleol trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei ddiwallu gan y papurau bro. Mae'r papurau bro yn aelodau o'r Gymdeithas Papurau Bro, ac yn derbyn nawdd o'r llywodraeth i ariannu'r papurau hyn. Mae dau gylchgrawn ar gyfer dysgwyr ar gael — Lingo (Golwg) ac Acen ar gyfer dysgwyr ar y lefelau isaf.


Radio

Prif: Radio Cymraeg

Teledu

Prif: S4C

Darlledwr sy'n darparu gwasanaethau teledu yn y Gymraeg yw Sianel Pedwar Cymru neu S4C. Dechreuodd ddarlledu ar y 1af Tachwedd 1982.



Ei gyfrifoldeb yw darparu gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg. Cyn sefydlu S4C roedd Cymry Cymraeg yn ddibynnol ar raglenni achlysurol ar BBC Cymru a HTV Cymru, yn aml yn hwyr yn y nos neu ar adegau amhoblogaidd eraill. Roedd hyn yn annerbyniol i'r Cymry Cymraeg ac i'r di-Gymraeg hefyd am fod rhaglenni Saesneg o weddill Prydain yn cael eu disodli neu'n cael ei darlledu ar amseroedd gwahanol.

Datblygiadau Technoleg yn yr Iaith Gymraeg

Cymraeg ar y rhyngwrwyd

Prif: Cymraeg ar y rhyngwrwyd

Yn ôl ymchwil diweddar,^[41] postwyd y neges gyntaf ag unrhyw destun Cymraeg ynddi ar Usenet ar 15 Awst 1989^[42] Ar 13 Tachwedd 1992, agorwyd y rhestr e-bost WELSH-L, sef y *Welsh Language Bulletin Board*.^[43] Hwn oedd y man trafod cyntaf penodedig ar gyfer yr iaith Gymraeg. Ers hynny, gwelwyd defnydd o'r Gymraeg mewn nifer fawr o feysydd ar y rhyngwrwyd, ac yn arbennig felly ar y we.

Yn sgil goblygiadau Deddf Iaith 1993, mae'r sector gyhoeddus yng Nghymru yn cynhyrchu gwefannau dwyieithog. Mae rhai busnesau a chymdeithasau, yn enwedig y rhai mawrion a'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Gymraeg hefyd yn cynhyrchu gwefannau dwyieithog, yn ôl eu polisi iaith unigol eu hunain.

O ran y cyfryngau cymdeithasol Cymraeg, mae dros 300 o flogiau Cymraeg^[44] erbyn 2015, a thros 4,500 o gyfrifon yn defnyddio Cymraeg ar Twitter.^[45] Nid yw'n glir beth yn union yw'r defnydd o Facebook, ond adnabu ymchwil a gynhaliwyd yn 2008^[46] bod 238 grŵp Facebook lle roedd defnydd o'r Gymraeg.

Mae llenyddiaeth Gymraeg wedi hawlio ei le ar y we hefyd. Yn 1996 rhoddwyd holl farddoniaeth y Prifardd Robin Llwyd ab Owain ar y we fyd eang dan yr enw Rebel ar y We^[47]; dyma oedd y gyfrol gyntaf yn y Gymraeg ar y rhyngrwyd.^{[48][49]} Bu Gwasg y Lolfa, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a'r Llyfrgell Genedlaethol hefyd yn flaenllaw iawn yn y dyddiau cynnar hyn.

Gweler hefyd

- Yr wyddor Gymraeg
- Enwau'r Cymry
- Rhestr gramadegau ac adnoddau ieithyddol Cymraeg
- Rhestr gramadegau Cymraeg (hyd 1900)
- Rhestr geiriaduron Cymraeg

Llyfryddiaeth

Cyffredinol

- H Pedersen, *Vergleichende Grammatik dêr keltischen Sprachen*, 1909-1913, (yn Almaeneg)
- Henry Lewis & Holger Pedersen, *A Concise Comparative Celtic Grammar* (1937)
- *Canu Heledd – testun a nodiadau Canu Llywarch Hen*, Gol. Ifor Williams (1935)
- Ifor Williams, *Y Gododdin: testun a thrafodaeth ragarweiniol Canu Aneirin*, (1938)
- Glyn Jones, *The Dragon Has Two Tongues* (1968) sy'n trafod gwaith a hanes yr awduron Eingl-*Gymreig yn hanner cyntaf yr 20g.
- *Llyfryddiaeth yr Iaith Gymraeg*, JE Caerwyn Williams (gol), (Gwasg Prifysgol Cymru, 1988)

Gwefannau

- Gwybodaeth am y Gymraeg ar wefan Bwrdd yr Iaith (<http://www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/yriaithgymraeg/Pages/index.aspx>) Archifwyd (<https://web.archive.org/web/20110617010700/http://www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/yriaithgymraeg/Pages/index.aspx>) 2011-06-17 yn y Peiriant Wayback
- Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru (<http://www.cymru.ac.uk/canolfan/>) a leolir yn Aberystwyth
- Tudalen ar y Gymraeg ar wefan Undeb Ewrop (yn Saesneg) (http://europa.eu.int/comm/education/policies/lang/languages/langmin/euromosaic/uk4_en.html)
- Cyfrifiad 2001: Adroddiad y Swyddfa Ystadegol Gwladol ar y Gymraeg (<http://www.ons.gov.uk/ons/rel/census/census-2001-report-on-the-welsh-language/report-on-the-welsh-language/adroddiad-ar-yr-iaith-gymraeg.pdf>) Archifwyd (<https://web.archive.org/web/20121030104611/http://www.ons.gov.uk/ons/rel/census/census-2001-report-on-the-welsh-language/report-on-the-welsh-language/adroddiad-ar-yr-iaith-gymraeg.pdf>) 2012-10-30 yn y Peiriant Wayback

- *Say Something in Welsh* (<http://www.saysomethinginwelsh.com/home/>) Archifwyd (<https://web.archive.org/web/20130117175631/http://www.saysomethinginwelsh.com/home/>) 2013-01-17 yn y Peiriant Wayback

Dysgu Cymraeg

- Rhan o wefan ELWA (http://www.elwa.ac.uk/doc_bin/business%20general/190505_all_you_need_to_know_about_speaking_welsh_w.pdf.pdf) Archifwyd (https://web.archive.org/web/20060619020948/http://www.elwa.ac.uk/doc_bin/business%20general/190505_all_you_need_to_know_about_speaking_welsh_w.pdf.pdf) 2006-06-19 yn y Peiriant Wayback yn rhoi gwybodaeth am ddysgu Cymraeg
- Acen (<http://www.acen.co.uk/>) - yn cynnig defnyddiau amlgyfrwng ar gyfer dysgwyr a dolen i wefan S4C i ddysgwyr ar www.learnons4c.co.uk
- Y Gwybodiadur (<http://www.gwybodiadur.co.uk/>) – casgliad o adnoddau Cymraeg a dysgu Cymraeg
- Mwydro Ynfyd Dedwydd - Mudiad y Dysgwyr (<http://www.myd.org.uk/>) Archifwyd (<https://web.archive.org/web/20110920002935/http://www.myd.org.uk/>) 2011-09-20 yn y Peiriant Wayback - Cyfarfodydd sgwrs a gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg
- Clwb Malu Cachu (<http://www.clwbmalucachu.co.uk/>) - gwefan adnoddau i ddysgwyr
- <http://www.logosquotes.org/pls/vvolant/welcome?lang=en> Archifwyd (<https://web.archive.org/web/20090216075233/http://www.logosquotes.org/pls/vvolant/welcome?lang=en>) 2009-02-16 yn y Peiriant Wayback - dyfyniadau wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg
- http://www.logosdictionary.org/pls/dictionary/new_dictionary.index_p Archifwyd (https://web.archive.org/web/20070305233019/http://www.logosdictionary.org/pls/dictionary/new_dictionary.index_p) 2007-03-05 yn y Peiriant Wayback - geiriadur amlieithog yn cynnwys y Gymraeg

Cyfeiriadau

1. Hywel Jones. "Estimation of the number of Welsh speakers in England" (<https://calls.ac.uk/wp-content/uploads/4844.pdf>) (PDF). *calls.ac.uk*.
2. Devine, Darren (30 Mawrth 2013). "Patagonia's Welsh settlement was 'cultural colonialism' says academic" (<https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/patagonias-welsh-settlement-cultural-colonialism-2514111>). *Wales Online*. Cyrchwyd 6 Mai 2017.
3. Prior, Neil (30 Mai 2015). "Patagonia 150 years on: A 'little Wales beyond Wales' " (<https://www.bbc.com/news/uk-wales-32919137>). *BBC News* (yn Saesneg). Cyrchwyd 2020-07-30.
4. Harris, Trevor (Hydref 2018). "The Welsh language in Patagonia". *European Journal of Language Policy* **10** (2): 277–295. doi:10.3828/ejlp.2018.15 (<https://dx.doi.org/10.3828%2Fejlp.2018.15>).
5. "Population of immigrant mother tongue families, showing main languages comprising each family, Canada, 2011" (https://www12.statcan.gc.ca/census-recensement/2011/as-sa/98-314-x/2011003/tbl/tbl3_2-1-eng.cfm). *Statistics Canada*. Cyrchwyd 21 Awst 2017.
6. "Detailed Languages Spoken at Home and Ability to Speak English for the Population 5 Years and Over: 2017-2021" (<https://www.census.gov/data/tables/time-series/demo/language-use/2017-2021-lang-tables.html>).
7. "Cultural diversity: Census 2021" (<https://www.abs.gov.au/statistics/people/people-and-communities/cultural-diversity-census/2021>). *Australian Bureau of Statistics*. 12 Ionawr 2022. Cyrchwyd 8 Hydref 2023.

8. Moseley, Christopher; Nicolas, Alexandre (2010). *Atlas of the world's languages in danger / editor-in-Chief, Christopher Moseley ; cartographer, Alexandre Nicolas* (<https://unesdoc.unesco.org/ark:/48223/pf0000187026>). Memory of peoples series (arg. 3rd ed. entirely revised, enlarged and updated.). Paris: UNESCO, Intangible Cultural Heritage Section. ISBN 978-92-3-104095-5.
9. "Welsh Language (Wales) Measure 2011" (<https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents>). [legislation.gov.uk](https://www.legislation.gov.uk). Cyrchwyd 2016-05-30.
10. "National Assembly for Wales (Official Languages) Act 2012" (<https://www.legislation.gov.uk/anaw/2012/1>). www.legislation.gov.uk. Cyrchwyd 2018-04-19.
11. Dunbar, R (2007). *Diversity in addressing diversity: Canadian and British legislative approaches to linguistic minorities and their international legal context*. Yn *Language and Governance*, gol. C. Williams. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. t. 104.
12. "Welsh language in Wales (Census 2021) [HTML] | GOV.WALES" (<https://www.gov.wales/welsh-language-wales-census-2021-html>). www.gov.wales (yn Saesneg). 2022-12-06. Cyrchwyd 2025-08-27.
13. "Welsh language speaking ability and use (National Survey for Wales): April 2022 to March 2023 [HTML] | GOV.WALES" (<https://www.gov.wales/welsh-language-speaking-ability-and-use-national-survey-wales-april-2022-march-2023-html>). www.gov.wales (yn Saesneg). 2025-08-14. Cyrchwyd 2025-08-27.
14. "Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth: Ebrill 2024 i Fawrth 2025" (<https://www.llyw.cymru/data-am-y-gymraeg-or-arolwg-blynnyddol-or-boblogaeth-ebrill-2024-i-fawrth-2025-html>). [llyw.cymru](https://www.llyw.cymru). 2025-07-03. Cyrchwyd 2025-08-29.
15. "Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru (canfyddiadau cychwynnol): Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020 (diwygiedig)" (<https://www.llyw.cymru/y-defnydd-or-gymraeg-yng-nghymru-canfyddiadau-cychwynnol-gorffennaf-2019-i-fawrth-2020-diwygiedig>). [llyw.cymru](https://www.llyw.cymru). 2022-02-17. Cyrchwyd 2025-08-29.
16. "Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021 i 2026" (<https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-rhaglen-waith-2021-i-2026-html>). [llyw.cymru](https://www.llyw.cymru). 2021-07-12. Cyrchwyd 2025-08-29.
17. "Almost a quarter of children in Wales are taught only in Welsh, as the language experiences a revival" (<https://www.itv.com/news/2017-09-04/back-to-school-but-not-an-english-one/>). ITV News. 2017-09-04. Cyrchwyd 2020-06-01.
18. Luain, Cathal Ó. "Unesco: Status of Celtic languages outlined by atlas" (<https://abp.bzh/unesco-status-of-celtic-languages-outlined-by-atlas-20850>). *Agence Bretagne Presse* (yn Ffrangeg). Cyrchwyd 2023-05-25.
19. **(Saesneg)** Greetings to the Universe in 55 Different Languages (<https://voyager.jpl.nasa.gov/spacecraft/languages/languages.html>). NASA.
20. **(Saesneg)** Welsh greetings (<https://voyager.jpl.nasa.gov/spacecraft/languages/welsh.html>). NASA.
21. "Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012–2015" (<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Adroddiad%205%20Mlynedd%20-%20Gwefan%20-%20Website%20%28unigol%29.pdf>) Archifwyd (<https://web.archive.org/web/20161011234429/http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Adroddiad%205%20Mlynedd%20-%20Gwefan%20-%20Website%20%28unigol%29.pdf>) 2016-10-11 yn y [Peiriant Wayback](#)
22. "Y Defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-2015" (<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Adroddiad%20-%20Y%20defnydd%20o'r%20Gymraeg%20yng%20Nghymru,%202013-15%20-%20Cymraeg.pdf>) Archifwyd (<https://web.archive.org/web/20180502220039/http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Adroddiad%20-%20Y%20defnydd%20o'r%20Gymraeg%20yng%20Nghymru%20C%202013-15%20-%20Cymraeg.pdf>) 2018-05-02 yn y [Peiriant Wayback](#)
23. Cyfrifiad 2011 QS204EW (<http://www.nomisweb.co.uk/census/2011/qs204ew>)
24. Nigel Callaghan (1993). "More Welsh Speakers than Previously Believed" (ar-lein). Cyrchwyd 21 Mawrth 2010 (<http://www.ibiblio.org/pub/archives/welsh-l/welsh-l/1993/Mar/More-Welsh-Speakers>).
25. [1]

26. Janet Davies, *Gwasg Prifysgol Cymru, Caerfaddon* (1993). *The Welsh Language*, t. 34
27. Morgan, Kenneth O. (1981). *Rebirth of a nation : Wales, 1880-1980* (<http://archive.org/details/rebirthofnationw0000morg>). Internet Archive. New York : Oxford University Press. t. 4. ISBN 978-0-19-821736-7.
28. Yr Eisteddfod Genedlaethol a Phwllheli Hywel Teifi Edwards, Clwb y Bont, Pwllheli 1987
29. Cadwraeth yr Iaith Trafodion y Commrodorion 1924-5
30. 'Historic' assembly vote for new Welsh language law (<https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-11934239>), *BBC News Online*, 7 Rhagfyr 2010
31. Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) (<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-wl.htm>) Archifwyd (<https://web.archive.org/web/20110122012437/http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-wl.htm>) 2011-01-22 yn y Peiriant Wayback Adalwyd: 13 Chwefror 2011]
32. Llywodraeth Cynulliad Cymru | Mesur Iaith Gymraeg yn derbyn Cydsyniad Brenhinol (<http://wales.gov.uk/newsroom/welshlanguage/2011/110211welshlang/?skip=1&lang=cy>) Adalwyd: 13 Chwefror 2011]
33. Royal Assent for official status of Welsh language - Wales News - News - WalesOnline (<http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/2011/02/12/royal-assent-for-official-status-of-welsh-language-91466-28159012/>) Adalwyd: 13 Chwefror 2011]
34. BBC Newyddion - Meri Huws yw'r Comisiynydd Iaith newydd (<https://www.bbc.co.uk/newyddion/15184186>) (cyrchwyd 5 Hydref 2011)
35. BBC News - Language board chief Meri Huws is Welsh commissioner (<https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-15186747>) (cyrchwyd 5 Hydref 2011)
36. Thomas, Peter Wynn (1996) *Gramadeg y Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru: 757.
37. English and Welsh (<http://demo.ort.org.il/clickit2/files/forums/471389549/948358249.pdf>) Archifwyd (<https://web.archive.org/web/20080409030442/http://demo.ort.org.il/clickit2/files/forums/471389549/948358249.pdf>) 2008-04-09 yn y Peiriant Wayback, traethawd gan J. R. R. Tolkien
38. BBC NEWS| Wales - Census shows Welsh language rise (<http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/2755217.stm>) (**Saesneg**)
39. R. M. Jones, *Ysbryd y Cwlwm: Delwedd y Genedl yn ein Llenyddiaeth* (Gwasg Prifysgol Cymru, 1998)
40. *Eu Hiaith a Gadwant? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif*, goln R Geraint Jenkins a Mari A. Williams (Prifysgol Cymru, 2000)
41. Jones, R.J., (2010). 'Cilfachau Electronig: geni'r Gymraeg ar-lein, 1989-1996' yn *Cyfrwng: Cyfnodolyn Cyfryngau Cymru*, Cyfrol 7
42. need_Welsh_translation - soc.culture.celtic | Google Groups (<https://groups.google.com/group/soc.culture.celtic/msg/22c589a9bd0edd3a>)
43. Jones, R.J., (2010, 28-31)
44. Gwybodaeth ar flogiau Cymraeg (http://hedyn.net/wici/Categori:Blog_Cymraeg) ar Hedyn
45. "Gwybodaeth ar tweets Cymraeg" (<https://web.archive.org/web/20111203031706/http://cy.umap.eu/u/>). Archifwyd o'r gwreiddiol (<http://cy.umap.eu/u/>) ar 2011-12-03. Cyrchwyd 2011-12-16.
46. *The Use of Welsh language on Facebook* (<http://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/13691180902914628?journalCode=rics20>) gan Courtenay Honeycutt a Daniel Cunliffe
47. Gwefan Robin Llwyd ab Owain (<http://www.barddoniaeth.com/>)
48. *Llais Llyfrau*, Hydref 1997: Erthygl gan Dafydd John Pritchard; Cyhoeddwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru.
49. *Trafodaeth ar Welsh-L yn Chwefror 1997*. (<https://listserv.heanet.ie/cgi-bin/wa?A2=ind9806&L=WELESH-L&P=R918&D=0&H=0&O=T&T=0>)

Dolenni allanol

- The Evolution of Welsh in 22 Words (<https://www.youtube.com/watch?v=E-CpIQErMeg&t=6s>) fideo ieithyddol yn dangos esblygiad 22 gair Cymraeg cyfoes o'r Frythoneg (2024)



Mae gan Wicilyfrau gwerslyfr neu lawlyfr ar y pwnc yma:

Cymraeg

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

- Ar gael yn y Gymraeg (<http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh>) a'r Saesneg (<http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted>).

 Cymraeg [Lleihau]	
Hanes y Gymraeg	Brythoneg · Hen Gymraeg · Cymraeg Canol · Cymraeg Fodern · Welsh Not · Brad y Llyfrau Gleision · Arwyddion ffyrdd
leithyddiaeth	Gramadeg · Rhifau yn y Gymraeg · Orgraff y Gymraeg (Braille Cymraeg · 6) · Geiriau (Geiriadur yr Academi · Geiriadur Prifysgol Cymru) · Toponymeg Cymru (Yn UDA)
llenyddiaeth	Rhestr awduron Cymraeg (1600–heddiw) (Mytholeg Gymreig · Trioedd Ynys Prydain · Mabinogion) · Addysg Gymraeg (Mudiad Ysgolion Meithrin · Wlpan)
Demograffeg	Poblogaeth siaradwyr Cymraeg · Y Fro Gymraeg · Llinell Landsker
Cyfryngau Cymraeg	Rhestr rhaglenni teledu Cymraeg · S4C · BBC Radio Cymru · Capital Cymru · Golwg · Golwg360 · Maes-e · Tafod y Ddraig · Y Cymro · Barn
Cerddoriaeth a gwyliâu	Eisteddfod Genedlaethol Cymru · Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd · Sesiwn Fawr Dolgellau · Diwrnod Shwmae Sumae · Tafwyl · Gwobrau'r Selar · Dydd Miwsig Cymru · Dysgwr y Flwyddyn · Nant Gwrtheyrn
Llywodraethiant	Gweinidog Addysg a'r iaith Gymraeg: Jeremy Miles · Comisiynydd yr Iaith Gymraeg · Bwrdd yr Iaith Gymraeg (darfod)
Grwpiau	Coleg Cymraeg Cenedlaethol · Cymdeithas Cymreigyddion Y Fenni · Cymdeithas yr Iaith Gymraeg · Cymuned · Dyfodol i'r Iaith · Menter Iaith · Mudiad Adfer · Urdd Gobaith Cymru · Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
Cyfraith	Deddfau'r Cyfreithiau yng Nghymru 1536 a 1542 · Deddf Llysoedd Cymreig 1942 · Deddf yr Iaith Gymraeg 1967 · Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 · Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 · Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012 · Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)
WiciBrosiect Cymru	



Brythoneg - (Celteg P)



Goedeleg - (Celteg Q)



Cernyweg · Cymraeg · Llydaweg | Gaeleg · Gwyddeleg · Manaweg

Gwelwch hefyd: leithyddiaeth · Y Celtiaid · Gwledydd Celtaidd

 Mae'r erthygl hon yn cynnwys testun o wefan Comisiynydd y Gymraeg (<http://www.comisiynyddygymraeg.org/>). Caniateir atgynhyrchu deunydd y Comisiynydd **am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol**. Uwchlwythwyd y gwaith hwn i'r Wicipedia Cymraeg o dan hawliau trwydded 'Defnydd Teg'.

Wedi dod o "<https://cy.wikipedia.org/w/index.php?title=Cymraeg&oldid=15125439>"